

Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yng Nghymru



Cynnwys

Cyflwyniad 04

1. Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth 06

- 1.1 Beth yw cytundeb partneriaeth dreftadaeth?
- 1.2 Beth yw'r manteision o ddefnyddio CPD?
- 1.3 Pryd fyddai CPD yn briodol?

2. Beth all CPD ei gynnwys? 09

- 2.1 Caniatâd ymlaen llaw
- 2.2 Mathau o waith nad oes angen caniatâd arnynt
- 2.3 Gwaith sydd angen caniatâd ar wahân
- 2.4 Enwau lleoedd hanesyddol
- 2.5 Materion eraill
- 2.6 Yr hyn nad yw CPD yn ei gwmpasu

3. Trefnu CPD 11

- 3.1 Creu partneriaeth
- 3.2 Paratoi'r cytundeb
- 3.3 Datblygu'r cynllun manwl
 - Amcanion
 - Arwyddocâd
 - Gwaith i'w wneud
 - Effaith
- 3.5 Hyd — Dyddiadau dechrau a gorffen
- 3.6 Hysbysiadau
- 3.7 Cadw cofnodion
- 3.8 Monitro
- 3.9 Adolygu
- 3.10 Amrywiadau

4. Trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd 16

- 4.1 CPD Adeilad rhestredig
 - Ymgynghori
 - Cyhoeddusrwydd
- 4.2 CPD Heneb gofrestredig
 - Ymgynghori
 - Cyhoeddusrwydd

5. Cymeraðwyo a mabwysiaðu 18

6. Terfynu 18

- 6.1 Terfynu CPD adeilad rhestredig
- 6.2 Terfynu CPD heneb gofrestredig

7. Templed ar gyfer Cytundeb 21

- Cyflwyniad
- Yr adeiladau rhestredig / henebion cofrestredig a gwmpesir gan y cytundeb
- Tymor y cytundeb
- Cynllun manwl
- Trefniadau hysbysu a chofnodi
- Amrywiadau
- Monitro gwaith
- Adolygu
- Terfynu
- Amrywiol

Cyflwyniad

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd gwerthfawr, ond mae'n fregus hefyd. Rhaid ei ddiogelu fel y gall cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o ddinasyddion Cymru ac ymwelwyr barhau i gael eu hysbrydoli ganddo, dysgu ganddo a mwynhau ei fanteision niferus.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd gwerthfawr, ond mae'n fregus hefyd. Rhaid ei ddiogelu fel y gall cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o ddinasyddion Cymru ac ymwelwyr barhau i gael eu hysbrydoli ganddo, dysgu ganddo a mwynhau ei fanteision niferus. Mae'r amgylchedd hanesyddol yr ydym wedi'i etifeddu'n ganlyniad i newid dros amser eisoes, ac mae newid pellach yn anochel. Mae angen rheoli'r newid hwnnw'n ofalus ac yn gynaliadwy os yw'r amgylchedd hanesyddol yn mynd i ymateb i ofynion bywyd modern ac ymateb i heriau'r dyfodol tra'n cadw'r hyn sy'n ei wneud yn arbennig hefyd.

Mae rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy yn gofyn am ddealltwriaeth wybodus o arwyddocâd, triniaeth ofalus ac yn ddelfrydol, dull gweithredu hirdymor. Gall hyd yn oed newidiadau bach, sy'n ymddangos yn ddibwys ynddynt eu hunain, gronni'n raddol i erydu ac yn y pen draw guddio cymeriad hanesyddol adeilad neu ardal gyfan hyd yn oed.

Er mwyn helpu perchnogion ac awdurdodau sy'n rhoi caniatâd i fabwysiadu dull hirdymor o reoli asedau hanesyddol dynodedig, diwygiodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i sefydlu cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru.

Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth

1.1

Beth yw cytundeb partneriaeth dreftadaeth?

Mae cytundeb partneriaeth dreftadaeth (CPD) yn drefniant gwirfoddol ar gyfer rheoli un neu fwy o asedau hanesyddol dynodedig yn y tymor hir. Fe'i negodir rhwng perchennog yr ased/asedau, yr awdurdod neu awdurdodau perthnasol sy'n rhoi caniatâd ac unrhyw bartïon eraill â buddiant. Yr hyn sy'n ei wneud yn wahanol i gynllun rheoli syml yw y gall ymgorffori caniatâd adeilad rhestredig a/neu heneb gofrestredig ar gyfer rhaglen waith y cytunwyd arni yn ystod oes y CPD, a all bara cyhyd â 10 i 15 mlynedd. Gall hefyd nodi'r hyn y mae angen caniatâd ar ei gyfer yng nghyd-destun cynllun rheoli cadwraeth cyffredinol a'r hyn nad oes angen caniatâd ar ei gyfer. Yn ogystal, gall y cytundeb gynnwys gwaith cynnal a chadw hefyd, a, lle y bo'n briodol, drefniadau sy'n gysylltiedig â mynediad i'r cyhoedd.

Mae CPD yn cefnogi rheoli asedau hanesyddol mewn modd buddiol a hirdymor drwy nodi amcanion cadwraeth y cytunwyd arnynt, gan nodi'r camau sydd eu hangen i'w cyflawni mewn rhaglen waith wedi'i chynllunio a darparu unrhyw ganiatâd angenrheidiol. Mae CPD yn darparu'r sail ar gyfer dull cynhwysfawr a chyson o reoli henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, boed wedi'u lleoli gyda'i gilydd ar un ystad neu wedi'u gwasgaru ar draws un neu fwy o ardaloedd awdurdod lleol.

Os yw CPD yn cynnwys henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, bydd, mewn gwirionedd, yn ymgorffori dau gytundeb cyfreithiol ar wahân a gwahanol — CPD adeilad rhestredig a CPD heneb gofrestredig. Ni fydd hyn yn cael effaith ar lawer iawn o'r cytundeb; er enghraifft, dim ond un cynllun manwl sy'n ymgorffori'r amcanion, arwyddocâd, gwaith ac effaith fydd ei angen. Fodd bynnag, oherwydd y ddeddfwriaeth a oedd yn ofynnol i sefydlu Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth yng Nghymru, mae dulliau ymgynghori a chyhoeddusrwydd a therfynu penodol yn berthnasol i'r ddau gytundeb cyfreithiol a rhoddir eu manylion ar wahân isod.

1.2

Beth yw'r manteision o ddefnyddio CPD?

Er bod yn rhaid i'r partïon sy'n rhan o'r CPD fuddsoddi amser ac adnoddau i'w ddatblygu, mae cytundeb yn sicrhau llawer o fanteision.

Mae CPD yn darparu fframwaith ar gyfer gwaith partneriaeth gwirioneddol rhwng y perchennog, yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd a phartïon eraill â buddiant. Mae cyfathrebu a rhyngweithio rheolaidd yn helpu i wella ymwybyddiaeth o fuddiannau a phryderon y naill a'r llall, ac i nodi atebion pe bai'r buddiannau hynny'n gwrthdaro. Mae gweithio mewn partneriaeth yn meithrin hyder ym mhob parti, yn annog arferion cadwraeth da, ac yn lleihau'r risg o newidiadau nas cynlluniwyd neu amhriodol i asedau hanesyddol drwy waith nad yw'n cydymffurfio.

I'r perchennog, mae'r CPD yn rhoi sicrwydd o gynllun rheoli asedau hanesyddol hirdymor sydd wedi cael cymeradwyaeth yr awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol sy'n rhoi caniatâd. Gydag unrhyw ganiatâd ar waith drwy gydol CPD, nid oes angen i berthennog wneud ceisiadau mwyach am ganiatâd dro ar ôl tro sy'n ailadroddus yn aml. Yn hytrach, mae gan berthennog yr hyblygrwydd i gynllunio gwaith i'w asedau dros gyfnod o amser ac mewn ffordd sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Gan y gall CPD gynnwys cytundebau am waith nad oes angen caniatâd ar ei gyfer hefyd, gall perchennog fwrw ymlaen â thasgau o'r fath yn hyderus a heb wynebu oedi sy'n llyncu amser. Fodd bynnag, os bydd unrhyw

faterion yn codi ynghylch rheoli asedau hanesyddol yn ystod cyfnod y cynllun, bydd y perchennog yn gallu ymgysylltu'n adeiladol â'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd a phartïon eraill y cytundeb i ddod o hyd i ateb iddynt. Yn fyr, mae CPD yn rhoi strwythur diogel a hyblyg i berthennog ar gyfer rheoli asedau hanesyddol dynodedig yn effeithlon.

Mae awdurdod sy'n rhoi caniatâd — boed yn awdurdod cynllunio lleol (ACLI) ar gyfer CPD adeilad rhestredig neu Cadw ar gyfer CPD heneb gofrestredig — yn elwa o greu CPD hefyd. Dros gyfnod cytundeb, bydd yr awdurdod yn sicrhau arbedion amser a chost gan fod y CPD yn dileu'r angen am geisiadau lluosog am ganiatâd unigol, ar gyfer gwaith tebyg a mân waith yn aml. Mae'r CPD yn sicrhau rheolaeth gadarnhaol, hirdymor o'r asedau hanesyddol a gwmpesir gan y cytundeb hefyd gyda chydweithrediad y perchennog.

Yn ystod y trafodaethau ar CPD, mae'r partïon yn gweithio gyda'i gilydd i nodi'r amcanion cadwraeth a'r camau gweithredu sydd eu hangen i'w cyflawni fel sail i gynllun rheoli. Mae'r broses hon yn sicrhau dull cyson o reoli asedau drwy gydol y cynllun. Mae'n lleihau'r tebygolrwydd o newidiadau nas cynlluniwyd neu amhriodol a allai arwain at broblemau yn y dyfodol. Mae'r darpariaethau adolygu a ymgorfforir mewn CPD yn sicrhau y gellir asesu ei weithrediad yn hawdd ac yn rheolaidd a gwneud addasiadau os oes angen.

Pryð fyððai CPD yn briodol?

Gall CPDau wneud darpariaethau ar gyfer henebion cofrestredig a/neu adeiladau rhestredig. Mae CPDau yn debygol o fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth reoli:

- Safleoedd mawr neu gymhleth lle mae nifer o adeiladau rhestredig a/neu henebion cofrestredig, megis ystad wledig, campws prifysgol, neu hen safle diwydiannol.
- Henebion sengl mawr neu gymhleth, megis cestyll, abatai neu adeiladau mawr adfeiliedig sy'n cael eu rhedeg fel atyniadau i ymwelwyr.
- Adeiladau sengl mawr neu gymhleth fel carchar, coleg neu ysbyty.
- Asedau o fath tebyg sydd yn yr un berchnogaeth ond mewn lleoliadau gwasgaredig, megis ysgolion, llyfrgelloedd neu bontydd sy'n eiddo i awdurdodau lleol, neu grwpiau o strwythurau cysylltiedig, er enghraifft ar hyd darn o gamlas.
- Safleoedd sy'n cynnwys henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig ac a fyddai'n elwa ar ddull cyfannol o'u rheoli.

Bydd y CPDau yn arbennig o ddefnyddiol lle mae gan safleoedd anghenion cadwraeth parhaus cymhleth neu

gyson sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ac atgyweirio cyfnodol, neu lle ceir rhaglenni adnewyddu ac ailwampio graddol. Byddant yn gweithio orau lle:

- Gellir rhag-weld gwaith sylweddol mewn prosiectau neu raglenni atgyweirio penodol megis rhaglen 10 mlynedd o atgyweirio gwaith maen, neu waith wedi'i gynllunio i adnewyddu elfennau adeiladu.
- Mae gwaith mynych yn debygol, er enghraifft lle mae angen atgyweiriadau cyson i bontydd ffyrdd.
- Mae rhaglenni gwaith penodol sy'n gyfyngedig o ran amser wedi'u cynllunio, er enghraifft gwaith sy'n gysylltiedig â defnyddio safleoedd segur o'r newydd.

Er y gallai nifer o berchnogion safleoedd fod yn rhan o un CPD, mae cytundebau'n debygol o gael eu cyflawni a'u cynnal yn haws lle mae safleoedd mewn perchnogaeth sengl a chanddynt gyfundrefn reoli sefydlog.

Gellir dod â gwrthrychau neu strwythurau o fewn cwrtil adeilad rhestredig o fewn cwrmpas CPD hefyd. Gall hyn fod yn fuddiol gan y bydd yn gyfle i gytuno ar beth yw cwrtil a pha waith a gwmpesir gan y broses caniatâd adeilad rhestredig. Gall CPD heneb gofrestrredig gynnwys tir sydd yng nghyffiniau heneb gofrestrredig hefyd neu'n ffinio â hi.

Beth all CPD ei gynnwys?

2.1

Caniatâd ymlaen llaw

Wrth wraidd CPD mae'r gallu i roi caniatâd ymlaen llaw ar gyfer gwaith penodedig, y gellir ei weithredu wedyn dros gyfnod o amser y cytunwyd arno.

Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gwaith rheolaidd a mynych lle gellir cytuno ar fanyleb gyffredin ar gyfer y gwaith ymlaen llaw. Y partion i'r cytundeb fydd yn gyfrifol am nodi cwmpas unrhyw ganiatâd ymlaen llaw. Gall y cytundeb bennu amodau hefyd, a chynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith gael ei gyflawni i safon cadwraeth y cytunwyd arni.

Yn achos adeiladau rhestredig, gall y cytundeb gwmpasu unrhyw waith (ac eithrio gwaith dymchwel) y gellid rhoi caniatâd adeilad rhestredig ar ei gyfer yn y ffordd arferol¹. Felly, gallai'r caniatâd ymlaen llaw gynnwys atgyweiriadau nad ydynt yn debyg am debyg (er enghraifft, lle bydd ffabrig hanesyddol yn

cael ei dynnu a lle cynigir newidiadau i ddeunydd neu ddull adeiladu) neu adnewyddu elfennau adeiladu (er enghraifft, adnewyddu ffenestri fesul cam). Gallai addasiadau sy'n arwain at welliant yng nghyflwr yr adeilad fod yn gymwys i gael caniatâd ymlaen llaw hefyd.

Ar gyfer henebion cofrestredig, gallai'r mathau o waith y gallai caniatâd ymlaen llaw fod yn briodol ar eu cyfer gynnwys trwsio erydiad, ail-bwyntio gwaith maen sy'n methu, plannu, cwmpo coed a ffensio. Gellid cynnwys gwaith sy'n gysylltiedig â mynediad i ymwelwyr, megis gosod neu atgyweirio llwybrau, rheiliau ac arwyddion hefyd.

Efallai y bydd lle i gasgliad ehangach o waith gael caniatâd ymlaen llaw lle maent wedi'u diffinio a'u cytuno mewn cynllun rheoli cadwraeth sy'n bodoli eisoes.

2.2

Mathau o waith nad oes angen caniatâd arnynt

Gall cytundeb hefyd bennu gwaith na fyddai angen caniatâd, ym marn y partion.

Yn achos adeiladau rhestredig, gallai hyn fod yn waith cynnal a chadw rheolaidd a gynlluniwyd ac atgyweiriadau tebyg am debyg lle na chollir ffabrig hanesyddol a lle na effeithir ar gymeriad yr adeilad. Ar gyfer henebion cofrestredig, gallai fod yn rheoli llystyfiant. Gellid nodi arfer da wrth gyflawni'r mathau hyn o waith yn y cytundeb, er enghraifft egluro'r diffiniad o drwsio tebyg am debyg, neu ddisgrifio'r dull ar gyfer rheoli llystyfiant.

Dylid manylu ar waith ar henebion cofrestredig sydd eisoes wedi'u cynnwys mewn caniatadau dosbarth² (er enghraifft, parhau â rhai gweithgareddau amaethyddol a garddwriaethol) mewn CPD i roi darlun llawn o'r gwaith o reoli'r asedau.

Gall y cytundeb ddisgrifio sut yr eir i'r afael ag anghenion cadwraeth sylfaenol hefyd drwy waith cynnal a chadw rheolaidd priodol ac wedi'i gynllunio. Cyfundrefn gynnal a chadw syml yw un o'r ffyrdd pwysicaf o ddiogelu adeilad rhestredig neu heneb gofrestrredig ar gyfer yr hirdymor, ac felly byddai'n arfer da cynnwys hyn o fewn cwmpas y cytundeb.

2.3

Gwaith sydd angen caniatâd ar wahân

Gall CPD roi eglurder ynghylch gwaith y bydd angen caniatâd ar wahân ar ei gyfer hefyd.

Er enghraifft, ni all CPD roi caniatâd i ddymchwel adeilad rhestredig; bydd hyn yn gofyn am gais am ganiatâd adeilad rhestredig ar wahân bob amser. Hefyd gall ACLI ystyried bod cymhlethdod neu sensitifrwydd rhai mathau o waith — er enghraifft, adfer neu ailadeiladu elfennau o adeilad rhestredig, neu ychwanegiadau neu addasiadau sylweddol — yn eu gwneud yn anaddas ar gyfer CPD.

Yn yr un modd, ni all cytundeb heneb gofrestredig roi caniatâd i ddymchwel neu ddinistrio. Byddai angen caniatâd heneb gofrestredig ar wahân hefyd ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n cynnwys llifogydd neu weithrediadau tipio ar dir y mae heneb gofrestredig

ynddo, arno neu oddi tano. Wrth ystyried CPD ar gyfer henebion cofrestredig, bydd ymgysylltu'n gynnar â Cadw yn helpu i nodi gwaith na ellir ei gynnwys o fewn ei gwmpas ac y bydd angen caniatâd ar wahân ar ei gyfer. Er enghraifft, byddai ceisiadau am ganiatâd ar gyfer cloddio archaeolegol yn gofyn am strategaethau ymchwil manwl a chyfiawnhad ac ni fyddent yn addas ar gyfer CPD. Mae angen caniatâd ar wahân ar gyfer unrhyw waith arolwg, megis arolwg geoffisegol neu samplu pridd³.

Bydd yn bosibl bob amser gwneud cais am ganiatâd ar wahân ar gyfer unwaith waith nad yw eisoes wedi'i nodi o fewn y CPD. Mae'n bosibl amrywio'r CPD i gynnwys gwaith newydd hefyd (gweler 3.10 Amrywiad).

2.4

Enwau lleoedd hanesyddol

Mae enwau lleoedd hanesyddol yn elfennau hollbwysig o'n treftadaeth, gan lywio ein hymdeimlad o le a chyfrannu at hunaniaethau lleol.

Mae datblygu CPD yn gyfle delfrydol i nodi a chofnodi unrhyw enwau hanesyddol am yr asedau a gwmpesir gan y cytundeb ac i annog parhau i'w defnyddio. Dylai unrhyw enwau lleoedd hanesyddol a nodir gael eu cyfrannu at y *Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol*.

2.5

Materion eraill

Gall CPD gynnwys cytundeb hefyd ar faterion eraill nad ydynt yn waith, ac sydd y tu allan i'r gyfundrefn ar gyfer rhoi caniatâd.

Er enghraifft, gallai gynnwys darpariaethau ar gyfer mynediad cyhoeddus i'r asedau hanesyddol, neu gynnwys manylion trefniadau rheoli ar gyfer asedau eraill megis parciau a gerddi hanesyddol i'r graddau ei fod yn ychwanegol i'r gwaith o reoli'r adeilad rhestredig neu'r

heneb gofrestredig. Gall gynnwys elfennau cysylltiedig eraill hefyd megis gwaith i gyrsiau dŵr neu dirweddu na fydd angen caniatâd ar ei gyfer o reidrwydd, ond sy'n effeithio ar gyflwr yr asedau hanesyddol sydd wedi'u cynnwys yn y CPD. Gall y rhain fod yn arbennig o berthnasol lle mae cynllun rheoli cadwraeth troswaol wedi'i baratoi, er enghraifft yng nghyd-destun rhaglen fawr a ariennir.

Gall y CPD wneud darpariaeth hefyd i ACLI neu Weinidogion Cymru gyfrannu at gostau unrhyw waith neu unrhyw gyfyngiadau, gwaharddiad neu rwymedigaeth sydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb

2.6

Yr hyn nad yw CPD yn ei gwmpasu

Ni all CPD ddarparu caniatâd cynllunio na chaniatâd ardal gadwraeth, ac ni all ychwaith gyflenwi unrhyw drwyddedau neu ganiatâd sydd eu hangen lle y gallai'r gwaith arfaethedig effeithio ar fuddiannau cadwraeth natur neu rywogaethau a warchodir gan Ewrop.

Rhaid gwneud cais am y caniatâd neu drwyddedau hyn ar wahân i'r awdurdod perthnasol sy'n rhoi caniatâd.

3— Trefnu CPD

3.1

Creu partneriaeth

Nid oes proses ymgeisio sefydlog ar gyfer CPD gan ei bod yn bartneriaeth a gaiff ei negodi.

Y partïon allweddol i unrhyw gytundeb yw perchennog/perchnogion yr ased hanesyddol, a'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd. Mae hyn yn golygu, lle caiff adeiladau rhestredig eu cynnwys, y bydd yr ACLI yn un o'r partïon bob amser. Os yw CPD yn cynnwys adeiladau mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol, bydd angen i bob awdurdod lleol fod yn rhan o'r cytundeb.

Pan fo henebion cofrestredig wedi'u cynnwys, rhaid i Cadw fod yn rhan o'r cytundeb. Yn ogystal, rhaid i Cadw fod yn rhan o CPD adeilad rhestredig os yw perchennog yr adeilad rhestredig neu'r safle yn awdurdod lleol ei hun.

Gall cytundeb gael ei greu gan y naill barti neu'r llall, ond mae'r ysgogiad ar gyfer CPD yn fwyaf tebygol o ddeillio o'r perchennog.

Gall y 'perchennog' fod yn berson sydd â hawl i denantiaeth yr heneb neu'r adeilad yn ôl prydles sydd heb fod â llai na 7 mlynedd yn weddill.

Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd i'r trefniant partneriaeth gynnwys partïon eraill sydd â buddiant yn yr asedau a gwmpesir gan y cytundeb. Gallai'r rhain, er enghraifft, gynnwys:

- unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle

- lesddeiliaid neu feddianwyr tymor byr
- cyrff eraill sydd â diddordeb yn y safle, fel grwpiau defnyddwyr
- sefydliadau sydd â gwybodaeth arbenigol, megis ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru a'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol, a allai fod yn gallu cynnig cyngor
- Cadw, os nad yw'r sefydliad yn un o brif bartïon y CPD.

Pryd bynnag mae CPD yn cael ei ystyried, mae trafodaeth gynnar rhwng partneriaid posibl yn angenrheidiol i helpu i lywio datblygiad manylach y cytundeb.

Hyd yn oed os nad yw Cadw wedi llofnodi CPD adeilad rhestredig, efallai y bydd ei swyddogion yn gallu cynnig cyngor wrth ddatblygu'r cytundeb. Heb os mae gwahodd eu cyfranogiad mewn trafodaethau cychwynnol, a sicrhau bod Cadw yn ymwybodol o'r holl gytundebau arfaethedig yn gynnar yn arfer da. Gall ymgysylltu'n gynnar hwyluso'r ymarfer ymgynghori ffurfiol sy'n digwydd cyn gwneud CPD hefyd.

Dylai'r CPD ei hun gynnwys cynrychiolwyr a enwir a manylion cyswllt ar gyfer pob parti.

3.2

Paratoi'r cytundeb

Unwaith y bydd partïon wedi penderfynu ymrwymo i CPD, bydd angen iddynt gytuno ar ei gynnwys, a datrys gwahanol faterion ymarferol.

Fel arfer, bydd perchennog y safle yn arwain y gwaith o ddatblygu'r CPD, mewn trafodaeth â'r ACLI a/neu Cadw. Fel arfer, bydd perchnogion yn ysgwyddo unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â datblygu cynnwys manwl CPD hefyd. Ar gyfer safleoedd cymhleth, neu lle rhagwelir rhaglenni gwaith cymhleth, efallai y bydd y perchennog am gynnwys asiant â chymwysterau addas yn y broses. Yr awdurdod priodol sy'n rhoi caniatâd fydd yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â chyhoeddusrwydd ac ymgynghori.

3.3

Datblygu'r cynllun manwl

Wrth wraidd unrhyw CPD mae ei gynllun manwl ar gyfer gwarchod a rheoli'r asedau. Dylai'r cynllun gynnwys:

- esboniad o amcanion y cytundeb
- crynodeb o arwyddocâd yr asedau sydd o fewn ei gwmpas
- disgrifiad o'r gwaith arfaethedig dros gyfnod y cynllun
- asesiad o effaith y gwaith hwnnw.

Dylai gynnwys egwyddorion arweiniol cyffredinol hefyd, a rhoi manylion am raglenni gwaith ar gyfer cynnal a chadw, rheoli ac atgyweirio.

Mae'r broses asesu effaith treftadaeth — sydd eisoes yn rhagofyniad ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig ac sy'n ofynnol yn aml ar gyfer caniatâd heneb gofrestredig — yn darparu methodoleg sydd eisoes ar gael a fydd yn help i baratoi'r cynllun. Yn ogystal â'r pwyntiau cyffredinol a wneir isod, mae canllawiau pellach ar y broses ar gael yng nghyhoeddiad Cadw: *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*.

Bydd paratoi'r cynllun manwl yn helpu hefyd i sefydlu a oes angen unrhyw waith paratoi arall, megis arolwg cyflwr neu gofnodi.

Amcanion

Bydd angen datganiad clir o amcanion cadwraeth a rheoli lefel uchel y cytundeb ar bob CPD. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y partïon i'r cytundeb ddealltwriaeth gyffredin o'i nodau, a bydd yn galluogi i'r nodau hynny gael eu cyfleu'n glir i eraill.

Bydd amcanion cadwraeth manwl ar gyfer asedau unigol yn cael eu nodi wrth ddiffinio'r gwaith a wneir yn ystod oes y cytundeb.

Arwyddocâd

Dealltwriaeth drylwyr o arwyddocâd ased hanesyddol yw'r man cychwyn ar gyfer unrhyw gynllun rheoli cadarn. Dylai pob CPD gynnwys datganiad sy'n mynd i'r afael ag arwyddocâd cyfunol ac unigol yr asedau a gwmpesir gan y cytundeb.

Dylai'r datganiad o arwyddocâd ystyried yr asedau gyda'i gilydd a nodi unrhyw arwyddocâd cyfunol sy'n deillio, er enghraifft, o swyddogaethau, technegau adeiladu neu ddyluniadau a rennir. Dylai roi disgrifiadau byr o'r asedau unigol yng nghyd-destun y cyfan hefyd. Bydd canolbwyntio ar werthoedd treftadaeth yr asedau hanesyddol yn helpu i ddadansoddi eu harwyddocâd:

- gwerth tystiolaethol: i ba raddau y mae'r adeiledd ffisegol yn dweud sut a phryd y crëwyd ased, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut mae wedi newid dros amser
- gwerth hanesyddol: gall ased hanesyddol ddangos ffordd benodol o fyw yn y gorffennol neu fod yn gysylltiedig ag unigolyn neu ddigwyddiad penodol ac efallai y bydd tystiolaeth ffisegol ar gyfer y cysylltiadau hyn y gallai fod yn bwysig ei chadw
- gwerth esthetig: dyluniad, adeiladwaith a chrefftwaith ased, a all gynnwys y lleoliad a golygfeydd o'r tu mewn a'r tu allan i'r ased hanesyddol
- gwerth cymunedol: gall fod gan ased hanesyddol arwyddocâd arbennig i bobl oherwydd ei werth coffaol, symbolaidd neu ysbrydol, neu am y rhan y mae wedi'i chwarae mewn bywyd diwylliannol neu gyhoeddus lleol.

Mae *Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn ffordd gynaliadwy* yn rhoi rhagor o wybodaeth am werthoedd treftadaeth.

Gwaith i'w wneud

Bydd yn rhaid i bartïon y CPD gytuno ar y gwaith y bydd angen ei wneud yn ystod oes y cytundeb i gyflawni ei amcanion. Dylai arwyddocâd ased hanesyddol fod yn ystyriaeth ganolog wrth lunio unrhyw gynlluniau. Dylai'r gwaith geisio sicrhau'r budd mwyaf ac achosi'r niwed lleiaf, fel bod arwyddocâd yr ased yn cael ei gynnal neu ei wella.

Os yw'r CPD yn cynnwys gwaith wedi'i gynllunio ar adeilad rhestredig nad yw'n annedd breifat, bydd angen ystyried materion mynediad hefyd. Bydd angen i'r gwaith arfaethedig ddarparu mynediad rhesymol a chael yr effaith leiaf niweidiol ar arwyddocâd yr adeilad rhestredig Mae *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru* yn rhoi rhagor o wybodaeth am faterion mynediad.

Ni all CPD roi caniatâd i ddymchwel adeilad rhestredig, dymchwel neu ddinistrio heneb gofrestredig, na thipio ar heneb gofrestredig na'i fodd.

Rhaid i bob CPD ddarparu manylebau manwl ar gyfer y gwaith a fydd yn derbyn caniatâd adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig o dan y cytundeb. Bydd angen iddynt gynnwys unrhyw gynlluniau, lluniadau a gwybodaeth arall sydd ei hangen i adnabod yr asedau a disgrifio'r gwaith yn ddigon manwl i gefnogi'r broses o roi unrhyw ganiatâd gofynnol.

Unwaith y bydd unrhyw waith sy'n gymwys i gael caniatâd ymlaen llaw wedi'i nodi a'i gadarnhau gan yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd, dylid paratoi rhestr fanwl o waith, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol y mae'r partïon yn cytuno sydd ei hangen. Gallai hyn gynnwys manyleb ar gyfer atgyweirio, trefniadau ar gyfer cofnodi archaeolegol priodol, neu ganllawiau dylunio ar gyfer arwyddion, er enghraifft.

Gall yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd roi amodau ar y gwaith, ac, os felly, bydd angen nodi'r trefniadau ar gyfer eu cyflawni yn y cytundeb. Yn dibynnu ar natur y gwaith, gellid cymeradwyo manylion yr amodau ar y dechrau drwy'r wybodaeth ategol sydd ynghlwm wrth y cytundeb. Mewn achosion eraill, fodd bynnag, efallai y byddai'n fwy priodol i fanylion gael eu datrys a'u cytuno yn ystod y cytundeb, cyn i'r gwaith perthnasol gael ei gychwyn. Os felly, bydd angen i'r cytundeb wneud darpariaeth ar gyfer amod cyn cychwyn.

Er bod yn rhaid rhestru'r gwaith a fydd yn cael caniatâd yn fanwl yn y CPD, bydd o fudd i bob un o'r partïon sy'n rhan o'r cytundeb gynnwys unrhyw waith arall yng nghynllun rheoli hirdymor y cytundeb. Gallai'r partïon, er enghraifft, gytuno bod rhai mathau o waith yn golygu cynnal a chadw rheolaidd ac, o ganlyniad, nad oes angen caniatâd arnynt. Fel arall, gallent gydnabod na ellir cynnwys rhai mathau o waith yn ddigonol yn y CPD ac y bydd angen caniatâd ar wahân arnynt. Bydd dull o'r fath yn rhoi eglurder i berchnogion ac awdurdodau sy'n rhoi caniatâd ac yn helpu perchnogion i gynllunio cadwraeth yr asedau yn eu gofal.

3.5

Hyd — Dyddiadau dechrau a gorffen

Bydd angen dod i gytundeb ynghylch hyd y CPD a rhaid nodi hyn yn y cytundeb ei hun. Bydd yr amserlenni'n amrywio yn ôl natur yr asedau a'r gwaith a gwmpesir gan y cytundeb, ond y disgwyl yw y bydd y rhan fwyaf o CPDau yn para rhwng 10 a 15 mlynedd.

Mae'r cyfnod hwn yn darparu cyfnod rhesymol ar gyfer cynllunio strategol ond mae hefyd yn cyfyngu ar y risg o fethu cydymffurfio â gofynion cadwraeth newidiol neu anghenion yr adeilad neu'r safle ei hun. Mae terfyn amser uchaf yn ofynnol a bydd yn sicrhau y gellir rheoli unrhyw newidiadau i'r personél perthnasol yn ystod oes y cytundeb yn effeithiol heb effeithio'n andwyol ar safonau'r CPD. Gall partïon ddewis nodi amserlen fyrrach neu hirach yn dibynnu ar anghenion yr adeilad neu'r safle mae'r cytundeb yn ymwneud ag ef. Er enghraifft, efallai y bydd angen cynlluniau tymor hwy i ddarparu ar gyfer newidiadau a achosir gan y newid yn yr hinsawdd;

Effaith

Bydd angen i'r cynllun asesu effaith bosibl unrhyw waith arfaethedig. Bydd angen iddo ddangos sut y bydd unrhyw waith yn cynnal neu'n gwella arwyddocâd ased hanesyddol, gan gynnwys manteision posibl ac unrhyw niwed. Os bydd unrhyw waith y cytunir arno'n cael effaith negyddol ar arwyddocâd ased, dylid esbonio'r mesurau a gymerir i gyfyngu ar yr effaith honno.

Os bydd gwaith yn cael effaith ar fynediad i adeilad rhestredig, dylai'r cytundeb egluro sut y mae'r dull mabwysiedig o ddylunio cynhwysol wedi cydbwysu unrhyw ddyletswyddau statudol, er enghraifft, yn Neddff Cydraddoldeb 2010 ac arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol yr adeilad rhestredig.

Dylai'r dadansoddiad o'r effaith fod yn gymesur ag arwyddocâd yr ased a graddfa'r effaith. Efallai mai dim ond ychydig linellau neu baragraff byr fydd eu hangen ar gyfer gwaith sy'n derbyn caniatâd na fydd yn gwneud fawr o newid i ased.

i'r gwrthwyneb, gallai amserlenni byrrach fod yn briodol pan fo'r CPD yn cefnogi cyflawni prosiect penodol a ariennir.

Sawl mis cyn i CPD ddod i ben, dylai'r partïon ailystyried y cytundeb a phenderfynu a yw'n dal i fod yn fuddiol iddynt ac o fudd i'r asedau hanesyddol y mae'n eu cwmpasu. Os felly, gellir ymestyn hyd y CPD, yn amodol ar ymgynghoriad a'r gofynion cyhoeddusrwydd a nodir yn adran 4 isod.

Fodd bynnag, os bydd y partïon yn penderfynu nad ydynt yn dymuno ymestyn y CPD, dylai unrhyw waith y mae'n darparu caniatâd ar ei gyfer gael ei gwblhau cyn i'r cytundeb ddod i ben. Os bydd gwaith yn dal i fynd rhagddo ar ôl i'r CPD ddod i ben, bydd angen sicrhau caniatâd adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig ar wahân er mwyn parhau â'r gwaith.

3.6

Hysbysiaðau

Nid oes gofyniad cyfreithiol i hysbysu'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd am ddechrau neu gwblhau gwaith.

Fodd bynnag, efallai y bydd angen hysbysu er mwyn gallu cyflawni amodau. Gall partïon ddewis sefydlu trefniadau ar gyfer hysbysu hefyd, fel rhan o unrhyw gynllun monitro. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol lle mae

yna waith mwy cymhleth. Y partïon i gytundeb fydd yn gyfrifol am benderfynu ar drefniadau hysbysu priodol yn ystod datblygiad y CPD. Yna, dylai unrhyw drefniadau gael eu cynnwys yn y CPD ei hun, gan nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan berchnogion a'r math o ymateb a ddisgwylir gan yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd.

3.7

Caðw cofnodion

Mae cofnod (ysgrifenedig neu ffotograffig) yn feincnod defnyddiol y gellir mesur rhaglenni gwaith yn ei erbyn.

Gall cofnodi elfennau'r gwaith fel y'u cyflawnir fod o gymorth hefyd o ran monitro ac adolygu cynnydd y CPD. Mae cofnodi'n debygol o gael ei bennu fel amod ar gyfer caniatâd.

Lle mae trefniadau ar gyfer cofnodi wedi'u cynnwys yn y CPD, dylent gael eu cytuno gan bob parti perthnasol a dylai'r cytundeb nodi'n glir pwy fydd yn gwneud y gwaith cofnodi, y math o gofnodi (ysgrifenedig, ffotograffig, lluniadau) sy'n ofynnol ac ar ba gam yn ystod y gwaith y bydd yn cael ei wneud. Dylai'r CPD nodi hefyd pa un o bartïon y CPD fydd yn gyfrifol am gadw'r

cofnodion hyn. Gallai cynnwys templed o daflen gofnodi yn y CPD fod yn ddefnyddiol hefyd er mwyn sicrhau cysondeb o ran yr wybodaeth a ddarperir.

Fel gofyniad sylfaenol, dylid gwneud cofnod ffotograffig cyn dechrau unrhyw waith a'i gyflwyno i'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd. Rhaid i lefel y cofnodi fod yn gymesur â'r math o waith sy'n cael ei wneud ac ni ddylai fod yn dasg fwy beichus nag sy'n ofynnol ar gyfer cais am ganiatâd adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig. Er enghraifft, os yw nifer o ffenestri o'r un math yn cael eu hatgyweirio, dim ond un ffenestr fyddai angen ei chofnodi. Dylid cadw unrhyw gofnodion a'u rhoi yn y cofnod amgylchedd hanesyddol priodol fel y byddent ar gyfer ceisiadau eraill am ganiatâd.

3.8

Monitro

Gall monitro gwaith a wneir fel rhan o'r CPD fod yn offeryn rheoli defnyddiol a bydd yn llywio'r adolygiad o CPD hefyd, sy'n ofyniad cyfreithiol.

Bydd manylion unrhyw drefniant monitro'n cael eu pennu gan gymhlethdod neu sensitifrwydd y gwaith, ac felly dylai'r cytundeb ddiffinio'r lefel ofynnol o fonitro sydd ei hangen a nodi'n glir pwy fydd yn ymgymryd â'r gwaith monitro.

Gallai'r CPD nodi unrhyw waith nad oes angen ei fonitro hefyd. Mae'n debygol na fydd y mathau hyn o waith yn sylweddol eu natur, a gallent fod yn destun amod cofnodi. Bydd hyn yn sicrhau y gellir archwilio'r gwaith yn ystod y cam adolygu. Bydd y trefniadau a wneir ar gyfer monitro'r gwaith yn y CPD yn cael eu cytuno gan bob parti perthnasol.

3.9

Adolygu

Rhaid i'r CPD nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu'r cytundeb.

Dylai pob parti fynychu cyfarfodydd adolygu ond bydd eu hamlder yn dibynnu ar hyd cytundeb a chwmpas y gwaith. Gall cytundeb pum mlynedd, er enghraifft, gynnwys gofyniad i gynnal adolygiad blynyddol. Bydd hyn yn rhywbeth a gytunir gan bob parti wrth i'r CPD gael ei ddatblygu.

Gallai'r broses adolygu fod yn ffordd ddefnyddiol o ystyried a yw unrhyw amrywiadau'n debygol o ddigwydd yn ystod y cyfnod adolygu sydd i ddod

3.10

Amrywiadau

Gan fod CPDau yn gytundebau a fydd yn para am flynyddoedd, mae'n anochel y bydd angen gwneud addasiadau.

Felly, rhaid i CPDau egluro sut y gall y partïon wneud amrywiadau neu ychwanegiadau at y cytundeb yn ystod ei gyfnod.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae newidiadau yn debygol o fod yn rhai mân, er enghraifft, addasiadau i gwmpas gwaith, newidiadau bach i ddyluniad neu anghenion

atgyweirio a chynnal a chadw ychwanegol sy'n dod i'r amlwg yn ystod y cytundeb. Mae'n debyg y gallai newidiadau o'r fath gael eu cytuno rhwng partïon drwy gyfnewid negeseuon e-bost. Rhaid i drefniadau gwaith fod wedi'u nodi'n glir yn y CPD, a ddylai esbonio hefyd sut y cytunir ar newidiadau eraill, er enghraifft, i fanylebau neu amodau.

O dan rai amgylchiadau, bydd angen dilyn y gofynion ar gyfer cyhoeddusrwydd ac ymgynghori a ddisgrifir isod yn adran 4.

4—

Trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd

Gan y disgwylir y bydd y rhan fwyaf o CPDau yn para am ddegawd neu fwy, mae trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd penodol wedi'u rhoi ar waith sydd â'r nod o sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng darparu atebolrwydd a thryloywder digonol ar gyfer y cytundebau pellgyrhaeddol hyn a chadw digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer amrywiaeth yr asedau a'r amgylchiadau a all gael eu cwmpasu ynddynt.

Mae angen dilyn y trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd canlynol:

- pan mae CPD adeilad rhestredig yn cael ei amrywio i roi neu amrywio caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer gwaith a fyddai'n effeithio ar gymeriad adeilad rhestredig fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig

- pan mae CPD adeilad rhestredig yn cael ei amrywio i gynnwys un neu fwy o adeiladau rhestredig ychwanegol
- pan mae CPD heneb gofrestrredig yn cael ei amrywio i gynnwys un neu fwy o henebion cofrestrredig ychwanegol
- pan mae CPD adeilad rhestredig neu heneb gofrestrredig yn cael ei amrywio i ymestyn hyd y cytundeb.

Gan eu bod yn deillio o'r trefniadau presennol ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig a heneb gofrestrredig, mae'r trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd ar gyfer CPD adeilad rhestredig a heneb gofrestrredig yn wahanol a rhoddir eu manylion ar wahân isod.

4.1

CPD Adeilad rhestredig

Gan y disgwylir y bydd y rhan fwyaf o CPDau yn para am ddegawd neu fwy, mae trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd penodol wedi'u rhoi ar waith sydd â'r nod o sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng darparu atebolrwydd a thryloywder digonol ar gyfer y cytundebau pellgyrhaeddol hyn a chadw digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer amrywiaeth yr asedau a'r amgylchiadau a all gael eu cwmpasu ynddynt.

Ymgynghori

Unwaith y bydd partïon y CPD wedi negodi cytundeb drafft neu amrywiad, rhaid i un neu fwy o'r ACLlau sy'n ymwneud â'r CPD gynnal ymgynghoriad ffurfiol cyfyngedig.

Rhaid i ACLI anfon y cytundeb drafft neu'r amrywiad at Weinidogion Cymru — Cadw i bob pwrpas — a rhoi o leiaf 21 diwrnod ar gyfer ystyried y dogfennau a dychwelyd sylwadau. Os oes angen mwy o amser, er enghraifft, ar gyfer safleoedd sylweddol neu helaeth, rhaid i Cadw hysbysu'r ACLI cyn i'r 21 diwrnod ddod i ben.

Cyhoeddusrwydd

Gellir ymgymryd â'r cyhoeddusrwydd sy'n gorfod digwydd cyn gwneud neu amrywio CPD yr un pryd â'r ymgynghoriadau a ddisgrifir uchod, yn enwedig os yw Cadw wedi bod yn rhan o ddatblygiad y CPD. Os yw mwy nag un ACLI yn rhan o CPD, rhaid i bob ACLI fodloni'r gofynion cyhoeddusrwydd canlynol.

Rhaid i ACLI sicrhau bod y CPD drafft llawn neu'r amrywiad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd ar adegau rhesymol mewn adeilad cyhoeddus mor agos ag sy'n rhesymol bosibl at leoliad y safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn y CPD. Gallai hyn fod yn swyddfa'r awdurdod lleol neu mewn llyfrgell gyhoeddus fel arfer. Rhaid i'r dogfennau fod ar gael am o leiaf 21 diwrnod gyda chyfarwyddiadau cysylltiedig ynghylch sut ac erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau ynghylch y CPD.

Rhaid i'r ACLI baratoi hysbysiad hefyd yn cynnwys:

- cyfeiriad neu leoliad yr adeilad neu adeiladau rhestredig dan sylw
- crynodeb o'r cytundeb drafft neu'r amrywiad
- manylion am ble a phryd y mae'r dogfennau drafft llawn ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd
- cyfarwyddiadau ar sut i wneud sylwadau a'r dyddiad cau ar gyfer eu derbyn.

Rhaid rhoi'r hysbysiad ar wefan yr awdurdod am o leiaf 21 diwrnod a rhaid arddangos copïau printiedig ar yr adeilad neu'r adeiladau rhestredig neu'n gymharol agos atynt am yr un cyfnod. Os yw CPD yn cynnwys sawl adeilad, nid oes angen rhoi hysbysiadau ar adeiladau unigol. Er enghraifft, ar gamlas, ni fyddai angen rhoi hysbysiad ar bob loc a restrir; yn hytrach, gellir gosod hysbysiadau'n strategol mewn lleoliadau allweddol yn ymyl y lociau lle maent yn fwy tebygol o gael eu gweld.

Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad i unrhyw feddianwyr hirdymor yr adeiladau nad ydynt yn rhan o'r cytundeb drafft neu'r amrywiad. Meddiannydd hirdymor yw unrhyw un sydd â thenantiaeth o ddwy flynedd neu fwy.

Hefyd, rhaid i'r ACLI roi'r hysbysiad i unrhyw un nad yw'n rhan o'r CPD y gallai ymddangos bod ganddo wybodaeth arbennig am yr adeiladau penodol dan sylw, neu ddiddordeb ynddynt, neu mewn adeiladau o ddiddordeb

pensaernïol neu hanesyddol yn fwy cyffredinol. Byddai'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol, ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru a grwpiau dinesig a hanesyddol lleol yn grwpiau naturiol i dderbyn hysbysiadau am CPDau drafft. Er mwyn osgoi dyblygu a gwastraff, nid yw'r rheoliadau CPD yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau arddangos hysbysiadau na'u rhoi i bartïon â buddiant os yw ACLI arall wedi gwneud hynny eisoes.

Os yw CPD yn cynnwys adeiladau rhestredig ym mherchnogaeth ACLI, rhaid i'r awdurdod ei hun wneud y trefniadau cyhoeddusrwydd priodol, ond mae Cadw yn gyfrifol am hysbysu unrhyw un a allai fod â gwybodaeth arbennig am yr asedau a gynhwysir yn y CPD, neu sydd â diddordeb ynddynt.

4.2

CPD Heneb gofrestredig

Gan mai Cadw yw'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd mewn materion sy'n ymwneud â henebion cofrestredig yng Nghymru, mae'n gyfrifol am yr ymgynghoriad a'r cyhoeddusrwydd sy'n gorfod digwydd cyn gwneud neu amrywio CPD heneb gofrestredig.

Mae amrywio CPD heneb gofrestredig yn golygu ychwanegu un neu fwy o henebion cofrestredig at y cytundeb neu ymestyn hyd y cytundeb. Gellir gwneud newidiadau eraill i CPD heneb gofrestredig gyda chytundeb pob parti heb orfod cydymffurfio â gofynion ymgynghoriad ffurfiol. Os yw'r newidiadau'n sylweddol, gall yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd benderfynu ystyried ymgynghori â chorff priodol megis Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru neu ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

Ymgynghori

Rhaid i Cadw ymgynghori ag unigolion ac awdurdodau sydd â buddiant uniongyrchol mewn rheoli a gwarchod heneb gofrestredig neu dir cysylltiedig y bydd CPD drafft neu amrywiad yn effeithio arno:

- y perchennog
- unrhyw feddiannydd
- unrhyw ACLI y lleolir yr heneb neu'r tir cofrestredig yn ei ardal
- unrhyw ACLI sy'n warcheidwad yr heneb neu'r tir cofrestredig yn rhinwedd adrannau 12 neu 15 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.

Rhaid i Cadw anfon copi cyflawn o'r ddogfen ddrafft at bob un ohonynt a chaniatáu o leiaf 21 diwrnod iddynt gyflwyno sylwadau.

Cyhoeddusrwydd

Gall CPD heneb gofrestredig roi caniatâd ar gyfer gwaith atgyweirio ar bontydd ffordd cofrestredig ar draws ardal awdurdod lleol gyfan neu ganiatâd ar gyfer ffensys newydd neu waith plannu o fewn un ardal gofrestredig. Felly mae'n rhaid i'r trefniadau cyhoeddusrwydd fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer amgylchiadau gwahanol o'r fath.

Yn union fel gyda CPDau adeiladau rhestredig, gall y cyhoeddusrwydd i CPDau henebion cofrestredig fynd rhagddo'r un pryd â'r broses ymgynghori.

Rhaid i Cadw gyhoeddi hysbysiad ar ei wefan am o leiaf 21 diwrnod sy'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- cyfeiriad neu leoliad yr heneb/henebion cofrestredig neu'r tir dan sylw
- crynodeb o'r ddogfen ddrafft
- cyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno sylwadau a phryd y mae'n rhaid eu derbyn
- gwybodaeth ynghylch sut i ofyn am gopi o'r cytundeb drafft neu amrywiad

Bydd Cadw yn rhoi'r hysbysiad hefyd i unrhyw un nad yw'n rhan o'r CPD a allai fod â diddordeb yn y cytundeb drafft neu'r amrywiad. Gall hyn gynnwys Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru a'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol.

5—

Cymeradwyo a mabwysiadu

Mewn ymateb i ymgynghori a chyhoeddusrwydd, efallai y bydd angen addasu'r CPD neu'r amrywiad, gyda chytundeb pob parti.

Yna gall y CPD gael ei gymeradwyo gan bob parti, a'i fabwysiadu gan yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd, yn unol â threfniadau llywodraethu arferol.

Rhaid rhoi rhestr o CPDau adeiladau rhestredig presennol ar wefan ACLI a'i diweddarau'n rheolaidd. Rhaid i ACLI gyflwyno copi o gytundeb newydd neu amrywiad i Cadw hefyd.

Rhaid i Cadw gyhoeddi rhestr o CPDau henebion cofrestredig cyfredol ar eu gwefan.

6—

Terfynu

Gellir terfynu CPD:

- oherwydd newid mewn perchnogaeth
- o dan delerau'r cytundeb
- drwy orchymyn ACLI neu Weinidogion Cymru.

Ni all CPD osod unrhyw rwymedigaeth neu atebolrwydd na rhoi unrhyw hawl i unigolyn nad yw'n un o bartïon y cytundeb. Oni bai bod pob parti yn cytuno i barhau â chytundeb gyda pherchennog newydd, bydd CPD yn peidio â bod yn effeithiol gyda newid perchnogaeth.

Rhaid i bob CPD wneud darpariaeth ar gyfer ei derfynu drwy gytundeb y partïon. Felly, os bydd y partïon, oherwydd newid mewn amgylchiadau neu am resymau eraill, yn penderfynu nad yw CPD yn llesol i'w buddiannau mwyach, dylent ei ddirwyn i ben mewn modd cyfeillgar drwy ddefnyddio trefniant y cytunwyd arno i'w derfynu.

Mewn achosion prin, efallai y bydd angen terfynu CPD hefyd lle mae'r cytundeb wedi'i dorri, er enghraifft, lle mae gwaith wedi ymestyn y tu hwnt i gwmpas y cytundeb neu heb ei gyflawni i safon neu fanyleb y cytunwyd arni. Dylai'r CPD wneud darpariaeth ar gyfer digwyddiadau o'r fath. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd ystyried a yw'r gwaith wedi ymestyn y tu hwnt i gwmpas y CPD mewn modd sy'n golygu bod gorfodi neu erlyn yn ffurfiol yn briodol.

Gall yr awdurdodau sy'n rhoi caniatâd derfynu CPDau, neu ddarpariaethau unigol, drwy orchymyn hefyd. Rhagwelir mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol a thu allan i'r rhai a bennir yn y CPD a'i drefniadau ar gyfer terfynu y bydd terfynu drwy orchymyn yn digwydd. Gall sefyllfa o'r fath godi, er enghraifft, pan wneir darganfyddiadau sylweddol ar ôl cloddio, gan olygu bod angen tynnu caniatâd yn ôl neu roi'r gorau i waith yn groes i ddymuniadau'r perchennog.

6.1

Terfynu CPD adeilad rhestredig

Gellir terfynu CPD adeilad rhestredig, neu ran ohono, drwy orchymyn naill ai gan ACLI sy'n un o bartïon y cytundeb neu gan Weinidogion Cymru. Mae adrannau 23, 24 a 26 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, sy'n ymdrin â dirymu ac addasu caniatâd adeilad rhestredig drwy orchymyn, wedi darparu'r fframwaith ar gyfer y broses.

Caiff ACLI sy'n rhan o CPD derfynu'r cytundeb, neu gyfran ohono, drwy orchymyn. Dim ond ar ôl iddo gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru y bydd y gorchymyn yn dod i rym.

Unwaith y bydd yr ACLI wedi gwneud gorchymyn terfynu a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, rhaid iddo hefyd gyflwyno hysbysiad:

- bartïon i'r cytundeb
- unrhyw breswilydd mewn adeilad y mae'r CPD yn effeithio arno sydd â thenantiaeth o fwy na dwy flynedd nad yw'n un o bartïon y cytundeb
- unrhyw unigolyn arall y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

Rhaid i'r hysbysiad roi o leiaf 28 diwrnod i dderbynwyr ofyn am wrandawriad gerbron rhywun a benodir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r unigolyn penodedig hwnnw roi gwrandawriad i'r unigolyn a wnaeth y cais yn ogystal ag unrhyw ACLI sy'n un o bartïon y CPD. Unwaith y bydd Gweinidogion Cymru wedi ystyried pob sylwad, efallai y byddant yn cadarnhau'r gorchymyn fel y'i gwnaed gan yr ACLI neu ei gadarnhau gyda neu heb addasiadau.

Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu terfynu CPD adeilad rhestredig, neu ran o un, drwy orchymyn, bydd y weithdrefn ychydig yn wahanol. Bydd angen i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad i'r unigolion a bennir uchod cyn gwneud y gorchymyn terfynu, ond yr un fydd y trefniadau ar gyfer cyflwyno sylwadau. Ar ôl ystyried pob sylw, gall Gweinidogion Cymru wneud y gorchymyn terfynu.

Efallai y bydd y sawl sydd â buddiant mewn adeilad yr effeithir arno gan orchymyn terfynu a wneir gan ACLI neu Weinidogion Cymru, yn gallu hawlio iawndal os yw'r gorchymyn yn gwneud gwaith yn ofer neu'n achosi colled neu ddifrod mewn modd arall. Rhaid i unrhyw hawliad gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn chwe mis i'r dyddiad y peidiodd y gwaith â chael ei awdurdodi. Rhaid iddo gael ei gyflwyno i'r ACLI a wnaeth y gorchymyn neu, yn achos gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, i'r ACLI ar gyfer lleoliad yr adeilad. Os oes dadlau ynghylch yr iawndal, gallai gael ei bennu gan yr Uwch Dribiwnlys.

Terfynu CPD heneb gofrestredig

Dim ond Gweinidogion Cymru a gaiff derfynu CPD heneb gofrestredig, neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb, drwy orchymyn. Mae'r broses yn deillio o'r darpariaethau yn Neddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ar gyfer dirymu caniatâd heneb gofrestredig drwy gyfarwyddyd.

Cyn gwneud gorchymyn derfynu, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o'r terfyniad arfaethedig i bartïon eraill y CPD ac i unrhyw unigolyn arall y maent o'r farn bod ganddo fuddiant yn y cytundeb. Rhaid i'r hysbysiad hwnnw gynnwys:

- drafft o'r gorchymyn derfynu
- y rhesymau dros y derfynu arfaethedig
- cyfarwyddiadau ynghylch sut y gellir gwneud gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru o fewn 28 diwrnod i gyflwyno'r hysbysiad.

Mae cyflwyno hysbysiad derfynu arfaethedig yn atal unrhyw ganiatâd heneb gofrestredig a roddwyd gan y CPD neu ddarpariaeth yn y CPD sydd i gael ei therfynu, gan ei gwneud yn ofynnol i unrhyw waith a awdurdodwyd gael ei atal ar unwaith.

Os gwneir unrhyw wrthwynebiadau i'r hysbysiad derfynu arfaethedig (ac na chânt eu tynnu'n ôl yn ddiweddarach), rhaid i Weinidogion Cymru naill ai gynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus neu benodi rhywun i dderbyn sylwadau gan y sawl sy'n gwrthwynebu a phartïon eraill â buddiant mewn gwrandawriad. Cyn cyhoeddi gorchymyn derfynu, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw wrthwynebiadau nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl ac unrhyw adroddiad a baratowyd gan y sawl a benodwyd i dderbyn sylwadau.

Os bydd Gweinidogion Cymru yn mynd ymlaen i derfynu'r CPD drwy orchymyn, rhaid iddynt anfon copi o'r gorchymyn hwnnw at bob unigolyn y cyflwynir copi o'r terfyniad arfaethedig ato ac at unrhyw unigolion eraill a gyflwynodd sylwadau. Ar ôl hynny, dim ond os sicrheir caniatâd heneb gofrestredig newydd y bydd unrhyw waith yn gallu ailddechrau. Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu peidio â therfynu'r CPD, unwaith y byddant yn cyhoeddi hysbysiad i'r perwyl hwnnw, bydd caniatadau'r cytundeb yn adfywio.

Gall unigolyn sydd â buddiant mewn heneb yr effeithir arni gan orchymyn derfynu a wneir gan Weinidogion Cymru, hawlio iawndal os yw'r gorchymyn yn gwneud gwaith yn ofer neu'n achosi colled neu ddifrod mewn modd arall. Rhaid cyflwyno cais ysgrifenedig am iawndal o fewn chwe mis i'r dyddiad y peidiodd y gwaith â chael ei awdurdodi. Os oes dadlau ynghylch yr iawndal, gallai gael ei benderfynu gan yr Uwch Dribiwnlys.

Templed ar gyfer Cytundeb

Cyflwyniad

Dyddiad llofnodi a manylion partïon y cytundeb

Yr adeiladau rhestredig / henebion cofrestredig a gwmpesir gan y cytundeb

Dylai'r CPD nodi'r adeiladau / henebion yn ysgrifenedig a'u cyfeirnodau a gwmpesir gan y cytundeb a dylai gynnwys mapiau er eglurder. Dylid nodi enw hanesyddol ased os yw'n wahanol i'r enw a ddefnyddir ar gyfer dynodiad. Dylid cynnwys gradd asedau hanesyddol unigol hefyd. Dylid nodi strwythurau a gwrthrychau cwrttil a gwmpesir gan y CPD hefyd.

Tymor y cytundeb

Dylid nodi dyddiad dechrau a gorffen y CPD.

Cynllun manwl

Bydd yr adran hon yn cynnwys:

Amcanion

— Datganiad o nodau cadwraeth a rheoli'r cytundeb

Arwyddocâd

— Asesiad o arwyddocâd cyfunol yr asedau a gynhwysir yn y CPD.

— Crynodebau byr o arwyddocâd asedau unigol.

Gwaith i'w wneud

— Gwaith y rhoddwyd caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd heneb gofrestredig iddo

- Manylebau manwl
- Amodau a all fod yn berthnasol i'r gwaith, a threfniadau ar gyfer eu cyflawni

— Gwaith nad yw'n dod o dan y cytundeb ac sydd angen caniatâd ar wahân

— Gwaith na fyddai angen caniatâd arno megis cynnal a chadw rheolaidd

- Manylebau manwl

Effaith

— Asesu effaith bosibl y gwaith ar arwyddocâd yr ased

Trefniadau hysbysu a chofnodi

Dylai trefniadau i hysbysu'r awdurdod sy'n rhoi caniatâd am ddechrau neu gwblhau gwaith fod yn fanwl a dylid nodi'r holl ofynion ar gyfer cofnodi gwaith yn glir.

Amrywiadau

Gellir cytuno ar fân amrywiadau i'r CPDau rhwng y partïon, a dylai'r adran hon o'r cytundeb egluro sut i ymdrin â nhw. Efallai y byddai'n briodol cytuno ar newidiadau llai drwy e-bost (er bod yn rhaid cadw cofnod ysgrifenedig clir), tra gall fod angen ystyried amrywiadau mwy sylweddol i fanylbau neu amodau mewn cyfarfodydd adolygu rheolaidd. Os yw'r partïon sy'n rhan o CPD presennol yn bwriadu:

- ychwanegu un neu fwy o henebion cofrestredig at gytundeb;
- ychwanegu un neu fwy o adeiladau rhestredig at gytundeb;
- rhoi neu amrywio caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer gwaith a fyddai'n effeithio ar gymeriad adeilad rhestredig fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig; neu
- ymestyn hyd CPD

Rhaid bodloni'r gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd llawn a nodir yn adran 4. Rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer y math hwn o amrywiad hefyd.

Monitro gwaith

Dylid nodi manylion unrhyw drefniadau ar gyfer monitro gwaith yn y CPD. Bydd manylion unrhyw waith monitro'n dibynnu ar gymhlethdod a sensitifrwydd y gwaith.

Adolygu

Rhaid i'r CPD nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu'r cytundeb gan gynnwys amllder y cyfarfodydd.

Terfynu

Rhaid i'r CPD gynnwys darpariaeth ar gyfer terfynu gan y partïon. Rhaid i'r CPD nodi'r weithdrefn i'w dilyn pe bai'r partïon yn cytuno i derfynu'r CPD.

Amrywiol

Gall y CPD gynnwys cytundeb ar faterion eraill hefyd nad ydynt yn destun caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd heneb gofrestredig, gan gynnwys

— Darpariaethau ar gyfer cynnal a chadw a gwarchod yr adeilad rhestredig neu'r heneb gofrestredig;

— Darpariaeth ar gyfer mynediad cyhoeddus i'r adeilad rhestredig neu'r heneb gofrestredig a darparu cyfleusterau, gwybodaeth neu wasanaethau cysylltiedig i'r cyhoedd;

— Cyfyngu ar fynediad i'r adeilad rhestredig neu'r heneb gofrestredig, neu'r defnydd o'r adeilad neu'r heneb;

— Gwaharddiadau ar wneud unrhyw beth penodedig mewn perthynas â'r adeilad rhestredig neu'r heneb gofrestredig.

Ôl-nodiadau

- 1 Awdurdod sy'n rhoi caniatâd fydd yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer CPDau adeiladau rhestredig a Cadw (ar ran Gweinidogion Cymru) ar gyfer CPDau henebion cofrestredig. Gall Gweinidogion Cymru fod yn awdurdod sy'n rhoi caniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig o dan rai amgylchiadau hefyd.
- 2 I gael rhagor o wybodaeth am strwythurau cwrtil, gweler *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017, t. 15. Rheoli newid i adeiladau rhestredig | Cadw (llyw.cymru)
- 3 Ni ellir cynnwys gwaith ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig mewn CPD a rhaid iddo gael caniatâd adeilad rhestredig ar wahân.
- 4 Ni all CPD ddarparu caniatâd ar gyfer gwaith a fyddai'n golygu dymchwel neu ddinistrio heneb gofrestredig nac unrhyw weithrediadau boddï neu dipio ar dir y mae heneb gofrestredig ynddo neu oddi tano.
- 5 Gorchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1994 (OS 1994/1381)
- 6 Adran 42 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/42>
- 7 Hafan – Enwau Lleoedd Hanesyddol RCAHMW | Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (cbhc.gov.uk)
- 8 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth unh Nghymru <https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Heritage%20Impact%20Assessment%20in%20Wales%20CY.pdf>
- 9 Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles_CY.pdf
- 10 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth unh Nghymru <https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Heritage%20Impact%20Assessment%20in%20Wales%20CY.pdf>
- 11 Adran 26L(6) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990; Adran 9ZA(3) o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.
- 12 Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 Atodlen 1 Rhan II Addasu a Dirymu Caniatâd Heneb Gofrestredig.

Deall a Rheoli